Y PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 19 EBRILL 2016

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Richard Cook (Chairperson), Cynghorwyr Boyle, Chaundy, Gordon, Joyce, Murphy a/ac Dianne Rees |
| | Aelodau Cyfetholedig: Mrs P Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac Mrs Hayley Smith (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) |

## 82 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Derrick Morgan a Lynda Thorne.

## 83 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 84 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2016, 16 Chwefror 2016 a 15 Mawrth 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 85 : CYNLLUN CYFLENWI ADDYSG 2016-2018 A CHYNLLUN BUSNES CONSORTIWM CANOL DE CYMRU 2016-2017

Croesawodd y Cadeirydd Angela Kent, Pennaeth Cyflawniad a Chynhwysiant, Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Cynghorydd Sarah Merry, Aelod Cabinet dros Addysg, Robert Hopkins, Pennaeth Gwella Ysgolion, Consortiwm Canolbarth y De a Neil Hardee, Pennaeth Adnoddau a Gwasanaethau Perfformiad i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Nick Batchelar Gynllun Cyflawni y Cyfarwyddiaeth dros Addysg i'r Pwyllgor.

Gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr aelodau am gael eu cyfeirio at y dudalen yn y cynllun cyflawni sy'n mynd i'r afael â materion dalgylchoedd sy'n effeithio ar lawer o ysgolion yng Nghaerdydd.
- Dywedodd y Swyddogion fod tudalen 33 y Cynllun yn cynnwys y wybodaeth hon, fodd bynnag, roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd digon o fanylion ar y wybodaeth am y mater hwn.
- Cyfeiriodd yr Aelodau at Gam Gweithredu 4.1 y Gyfarwyddiaeth 'Datblygu ymhellach y perthnasoedd gwaith gyda gwasanaethau iechyd, plant a phartneriaid eraill i hyrwyddo ymagwedd unigol at asesu, cynllunio a

darpariaeth' a gofynnodd beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol ac a gâi cyllidebau eu cyfuno.
Dywedodd y swyddogion y cafodd hyn ei gynnwys fel ymrwymiad corfforaethol, roedd yn ddyddiau cynnar, roedd y cyfnod ymgynghori wedi gorffen yn ddiweddar ac roeddent yn ystyried yr opsiynau. O ran cyfuno cyllidebau, dywedodd y swyddogion y byddent yn cael trafodaethau gyda'r partneriaid, fodd bynnag ni fyddai hyn yn cael ei ddiystyru; roedd swyddogion yn edrych ar cydweithio rhwng ysgolion a rhwng awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill oherwydd bod heriau a phwysau ariannol sylweddol ar faes Anghenion Dysgu Ychwanegol y darpariaethau.

- Cyfeiriodd yr aelodau at flaenoriaeth 4 - 'Gwella argaeledd lleoedd priodol mewn ysgolion ledled y ddinas' a gwnaethant nod yn adran hon y cynllun, cyfeiriwyd at ysgolion cynradd yn uning.
- Esboniodd swyddogion y gwyddys am y niferoedd rhagamcanedig a bod digon o leoedd mewn ysgolion Uwchradd ar hyn o bryd felly roedd y pwyslais ar leoedd mewn Ysgolion Cynradd oherwydd dyma ble roedd y pwysau yn cael eu teimlo.
- Trafododd yr aelodau y Gwasanaeth Ieuenctid a lle roedd yn cydfynd ag Addysg.
  Dywedodd y Swyddogion y byddai alinio agosach yn y dyfodol; sylwyd bod cyllidebau'n lleihau ond roedd gwaith mwy effeithlon ac effeithiol ar waith gyda'r strwythurau newydd a oedd ar waith; byddai pwyslais ar ddeilliannau strwythurau a'u heffaith ar les a chyrhaeddiad achrededig. Cyfeiriodd swyddogion at grant o Gronfa Gymdeithasol Ewrop a fyddai'n galluogi mwy o adnoddau i gael eu targedu tuag at gydgysylltu ysgolion a'r gwasanaeth ieuenctid a rhoi cymorth ehangach. Ychwanegwyd bod angen i ddarpariaeth fod yn briodol ac yn gytbwys a bod angen agweddau hamdden iddi yn hytrach na rhoi darpariaeth a fyddai'n ymestyn y diwrnod ysgol.
- Mynegodd yr aelodau bryder o ran pontio rhwng yr ysgol a chyflogaeth a hyfforddiant, gan sylwi oherwydd lleihad o ran cyllidebau, ni ellid cynnig cymaint o gefnogaeth ag o'r blaen.
- Sylwodd yr aelodau ar y cyfeiriad a wnaed i Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Gofynnant beth fyddai'n digwydd pe bai'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar ôl y refferendwm.
- Ystyriwyd mai dyma oedd cwestiwn y dylid mynd ag ef yn ôl at yr Arweinydd.
- Roedd yr aelodau'n siomedig nad oedd y cynllun yn cynnwys unrhyw fesurau neu raddfeydd amser o ran perfformiad.
  Deallodd y swyddogion y rhwystredigaethau hyn ac esboniant mai cynllun drafft oedd a gâi ei gwblhau, terfynu a'i roi yn ôl i'r pwyllgor.
- Gan gyfeirio at benodiad Pennaeth mewn ysgol uwchradd yng ngorllewin y Ddinas, gofynnodd yr Aelodau am raddfeydd amser ar gyfer y broses hon.
- Dywedodd yr Swyddogion fod y broses ymgeisio wedi dod i ben ac y byddai'r broses penodi gyda'r Corff Llywodraethu dros dro yn dechrau o fewn yr wythnos nesaf.
- Gofynnodd yr aelodau pryd fyddai adran 'Cynllunio am y Dyfodol' y Cynllun yn gorffen a chawsant wybod y byddai pob cam gweithredu yn y cynllun yn cael eu poblogi erbyn diwedd y mis.
- Cyfeiriodd yr aelodau at yr adran 'Cyd-destun, Cyfleoedd a Heriau' o fewn y cynllun, sylwi eu bod i gyd yn pwyntiau bwled a gofyn a fyddai ymhelaethu ar y rhain.
- Esboniodd Swyddogion eu bod yn benawdau bras ac y byddai ystod o gamau gweithredu oddi tanynt.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad am ystyr rhesymoli cyllidebau ysgol a ddelir yn ganolog.
  Esboniodd yr Swyddogion fod cyllideb a ddelir yn ganolog ar gyfer ysgolion ar gyfer projectau fel Wi-Fi neu gynlluniau ynni, lle y gellid bod yn fwy effeithlon trwy fenthyca a rhoi cynlluniau o'r fath i mewn i ysgolion drwyddi draw yn hytrach na wneud hynny bob yn dipyn; felly, roedd cyllidebau ar gadw ar gyfer projectau o'r fath.

Cyflwynodd Robert Hopkins Cynllun Cyflawni y Gyfarwyddiaeth ar gyfer y Consortia i'r Pwyllgor. Dywedwyd wrth yr aelodau bod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r broses hunanarfarnu.

Gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Sylwodd yr aelodau y câi rhai agweddau gweithredol penodol eu cymryd o'r Cyngor i'r Consortia a gofynasant am eglurhad o beth fyddai'r rhain.
- Dywedwyd wrth yr aelodau bod Cyfarwyddwyr 5 awdurdod lleol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn gwneud penderfyniadau ar ble mae lle i gydweithio; gwnaed penderfyniadau ar gydweithio ar wasanaethau 14/19; Gwasanaethau AD/Cyngor (yn benodol ar gyfer ysgolion sy'n tanberfformio), hyfforddiant i Lywodraethwyr a cynhyrchu data.
- Cyfeiriodd aelodau at Flaenoriaeth Gwella Un, amcan 1.1 ac yn arbennig at 'Gynyddu cyflenwad athrawon mathemateg uwchradd yn y rhanbarth drwy ymgyrch recriwtio bwrpasol a gofynasant am ddiweddariad ar hyn.
  Dywedwyd yr aelodau bod hyn yn ymrwymiad, y bu mathemateg yn broblem felly roedd yn fater presennol i fyd i'r afael ag ef; mae ganddo broffil uwch ac mae recriwtio'n fwy deniadol i'r rhanbarth. Bu digwyddiad recriwtio yn ddiweddar a oedd wedi hyrwyddo arweinyddiaeth a gweithio yn yr ardal ac roedd dros 100 bobl yn bresennol gan gynnwys penaethiaid a fu'n siarad am eu profiadau o weithio yn y rhanbarth.
- Trafododd aelodau drochi a gofynasant a oedd unrhyw gynnydd ar sefydlu canolfan trochi ar gyfer pobl sydd ag anghenion Saesneg fel Iaith Ychwanegol.
- Sylwodd y swyddogion fod hyn wedi bod yn ddadl a oedd wedi bod yn parhau dros lawer o flynyddoedd, a bod y dystiolaeth wedi dangos bod trochi yn amgylchedd y dosbarth wedi bod yn buddiol dros ben.
  Trafododd yr aelodau trochi'r Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr a gwnaethant ystyried bod arnynt angen rhagor o wybodaeth am y cyllidebau priodol.
- Roedd yr aelodau yn pryderi am rai wardiau dros eu capasiti o ran plant ag anghenion Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac nad oedd Caerdydd wedi dechrau derbyn teuluoedd o ffoaduriaid o Syria.

Diolchodd y Cadeirydd i Robert Hopkins am y cyfraniad hwn i'r Pwyllgor a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet, cynrychiolydd o'r Consortia a swyddogion am fynychu'r cyfarfod, rhoi eu cyflwyniadau a'u datganiadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

86 : CYNLLUN CYFLENWI ELFEN GWASANAETHAU PLANT Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016 - 18

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sue Lent, Aelod Cabinet ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd, Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Irfan Alam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant i’r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y cynllun yn amlinellu busnes Craidd, deilliannau allweddol, dyheadau a chyflawniadau a bod perfformiad wedi gwella’n sylweddol yn y gyfarwyddiaeth yn ystod y flwyddyn diwethaf.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad am nifer staff yr Asiantaeth sy'n gweithio yn y gyfarwyddiaeth; dywedodd y swyddogion fod y nifer wedi'i erydu'n flynyddol ond ni chyfeiriwyd at hyn yn benodol yn y cynllun; cytunodd y Swyddogion i roi'r ffigurau i'r Aelodau.
- Cyfeiriodd yr Aelodau at lefelau’r swyddi gwag a’r gronfa cyflogeion a gofynasant sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol.
- Esboniodd y swyddogion y câi’r swyddi eu llenwi ac y câi’r broses recriwtio ei pharhau, câi swyddi eu creu a’u llenwi o’r gronfa; byddai saith o weithwyr cymdeithasol gradd 7 yn y gronfa er mwyn gwasanaethu yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant gyfan; byddant yn gweithio yn y tîm Derbyn ac Asesu i ddechrau gan fod trosiant y gwaith yn fwy, wedyn pan gaiff llwythi achos eu dyrannu iddynt, gallant drosglwyddo i’r adran berthnasol gyda’r llwyth gwaith hwnnw, sy’n ei wneud yn llai aflonyddgar i’r defnyddiwr gwasanaeth.
- Sylwodd yr Aelodau y cafodd y trosiant presennol ei nodi yn y r adroddiad fel sero, sylwyd mai gwall oedd hyn ac y câi’r ffigur cywir ei gyfleu i'r Aelodau.
- Trafododd yr Aelodau yr amser a gymerir i ysgolion gyfeirio plant i wasanaethau cymdeithasol a gofynasant a eid i'r afael â hyn yn cynllun cyflawni.
- Ystyriodd y swyddogion fod y broses gyfeirio yn amserol a bod amserlenni rhagnodedig i lynu wrthynt, fodd bynnag weithiau mae'n bosibl y bydd ysgol yn ystyried bod cyfeiriad ar frys pan nad yw mewn gwirionedd, felly gallai oedi gael ei gamgymryd.
  Ychwanegwyd, yn y dyfodol y byddai’n rhaid gweithio gyda phartneriaid er mwyn deall y prosesau, ac y byddai gweithio gyda MASH a JAF yn gweithio; byddai angen i’r berthynas gydag ysgolion gael ei had-drefnu er mwyn bod yn fwy o ymagwedd partneriaeth.
- Trafododd yr Aelodau Strategaeth Teuluoedd yn Gyntaf ac ailadrodd gwahanol bryderon am drefniadau rheoli ac arwain wrth iddynt gael eu trosglwyddo o'r gymuned Wasanaethau Plant.
  Esboniodd y Swyddogion nad oeddent yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau, roedd y strategaeth yn rhagnodedig iawn a byddai’r sefyllfa bresennol yn parhau. Ychwanegwyd y câi’r strategaeth ei halinio gyda’r Strategaeth Cymorth Cynnar. Croesawodd y swyddogion y trosglwyddo i Wasanaethau Plant ac esboniasant y byddent yn gweithio gyda phartneriaid a

sefydliadau'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau bod y cynnig am Gymorth Cynnar cystal ag y gallai fod. Ychwanegwyd y câi gwybodaeth ei rhannu gyda'r Pwyllgor mewn modd agored a thryloyw er mwyn sicrhau y caiff y swyddogion eu dal yn ymatebol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet, cynrychiolwyr o'r Consortia a swyddogion am fynychu'r cyfarfod, rhoi eu cyflwyniadau a'r datganiadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 87 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf fel dydd Mawrth 17 Mai 2016 am 2.30 pm. Nodwyd hefyd y byddai cyfarfod galw i mewn ar yr un diwrnod, yn dechrau am 11.00 am.